tafod elái

www.tafelai.u-net.com

Rhagfyr 1999 | Pris 25c | Rhif 143

ER GWAETHAF PAWB A PHOPETH

Ydy, mae'n droad y ganrif, yn droad y fileniwm ac mae'n amser dathlu Gŵyl y Nadolig. Gyda gwyliau hirach na'r arfer mae'n gyfle i fwynhau ac i wledda.

Mae hefyd yn amser i baratoi ar gyfer dyfodol yr iaith a'n diwylliant yn yr ardal. Mae cefnogaeth o bob cwr i'r iaith Gymraeg erbyn hyn ac mae'n gyfle arbennig i bawb i ddefnyddio'r iaith ar bob achlysur posib, gan, os oes raid, ddefnyddio ein holl hawliau i fynnu fod yr iaith yn cael lle amlwg yn ein bywyd ac ym mywyd y fro. Mae'n wyrth ein bod yma o hyd.

Awn ati i ddathlu ein diwylliant yn y Mileniwm newydd.

LANSIO LLYFRAU NEWYDD

Bydd dau lyfr yn y gyfres Hwylio Mlaen yn cael eu lansio yng Nghlwb y Bont ar nos Iau, 9fed Rhagfyr am 8.00pm. Y ddau lyfr gan Wasg y Lolfa yw:

Mynd am Dro gan Dyfed Elis-Gruffydd

Y Gymraeg Ddoe a Heddiw gan Cennard Davies.

Croeso i bawb ddod i'r lansiad gyda disgo a gwin.

BYG Y MILENIWM YN TARO DEG

Catrin Dafydd ac Osian Llywelyn o griw sioe buddugol Ysgol Rhydfelen gyda'r beirniad John Pierce Jones yn yr Wyl Ddrama

Do, fe darodd Byg y Mileniwm Gŵyl Ddrama Tafod Elái eleni - ac hynny mewn mwy nag un drama. Cawsom effaith y byg ar Amgueddfa Sain Ffagan ac ar fywyd yn Nhregaron.

Roedd yn Ŵyl o ddramau difrifol a doniol, difyr a llon gyda chynulleidfaoedd brwd yn llenwi Neuadd Dowlais ar y dair noson.

Cawsom feirniadaeth adeiladol, diddorol a chynhwysfawr gan John Pierce Jones ac roedd yn amlwg fod gwaith a dychymyg wedi mynd i mewn i'r cynhyrchiadau.

Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant yr Ŵyl ac yn arbennig i Colin Williams am drefnu gŵyl gyfeillgar a graenus ar ein cyfer.

Logo Sioe Ysgol Gyfun Rhydfelen

Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

Y Nadolig

Celyn a thelyn a thân - ar aelwyd,
A charoli diddan,
A'r hen fyd i gyd yn gân
O achos y Mab bychan.

Robert Owen

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
01222 890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
01222 811413
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
HYSBYSEBION
David Knight 01222 891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 01222 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
01222 890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
19 Ionawr 2000

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20 890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.u-net.com
e-bost
pentyrch@tesco.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath ar yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

GAIR O'R CYNULLIAD

Y Cynghorydd Geraint Davies AC oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod blynyddol Menter Iaith ym mis Tachwedd.

Dechreuodd Geraint Davies drwy nodi y datblygiadau sydd wedi esgor ar yr ymdeimlad o "Cŵl Cymru" tu fewn a thu allan i ffiniau Cymru, e.e. gweithgareddau fel Cwpan Rygbi'r Byd, Stadiwm y Milflwydd, Y Cynulliad Cenedlaethol, sêr ffilm a byd drama, ymddangosiad cynyddol y ddraig goch a llawer mwy. Ers 600 mlynedd roedd Cymru wedi bod yn wlad ddarostyngedig. Roedd hi nawr yn bosib mynegi barn mewn dull democrataidd. Teimlodd ei bod hi'n drist nad oedd mwy o'r aelodau o fewn y Cynulliad yn defnyddio'r iaith. Roedd hi nawr yn bosib symud o un iaith i'r llall yn rhwydd. Teimlodd ei bod hi'n annerbyniol bod y cyfryngau yn anwybyddu cyfraniadau Cymraeg yn y Cynulliad.

Aeth ymlaen i longyfarch Cyngor Rhondda Cynon Taf ar ei Gynllun Iaith a bod hi nawr yn allweddol bod unigolion o fewn y Sir yn pwyso ar yr adrannau am wasanaethau Cymraeg.

Gwnaeth apêl i ysgolion gael cyfleusterau ac adnoddau cyfieithu ar gyfer eu cyfarfodydd rhieni, llywodraethwyr ac yn y blaen. Nododd er enghraifft bod un o bob tri o blant ardal y Rhondda Fawr nawr yn mynychu ysgolion Cymraeg. Yn y sector Uwchradd yn Rhondda Cynon Taf y disgwyl oedd y byddai 4,000 o ddisgyblion erbyn 2008. Er yn croesawu y twf ym Mro Ogwr rhaid oedd diogelu dyfodol ysgol lwyddiannus fel Llanhari o fewn ffiniau RH CT.

Gwnaeth apêl ar bawb yn yr ardal i bwyso yn galed ar swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor i droi Cynllun Iaith RH CT yn weithrediad gweladwy.

Merched y Wawr
Cangen y Garth

Goleuo'r Goeden Nadolig yn Sain Ffagan, Rhagfyr 8ed

Dathlu'r Hen Galan
8.00 Nos Fercher
12 Ionawr 2000

Manylion Pellach:
Gwyneth Jones 01222 891947

TWMPATH Y MILENIWM
gyda
Jac y Do

Nos Wener, Ionawr 17
yn
Neuadd y Pentref
Pentyrch
Tocynnau: £5
01222 890961

BLASU GWIN
Gwinllan
Llannerch
Nos Fercher
22 Rhagfyr

Bws o Bentyrch am 7.00pm
Creigiau 7.10pm

Y Fari Lwyd

1af Ionawr 2000
4.00 o'r gloch y
prynhawn
Neuadd y Pentref
Pentyrch
ac yna i ben Y Garth

Ffôn: 01222 890571

PONTYPRIDD

Gohebwyr Lleol:
Delyth Jones a Jayne Rees

Ysgol Evan James

Ymweliadau
Aeth dosbarthiadau 11,12,13 +14 i Sain Ffagan - cawsant gyfle i fynd i'r ysgol ac ymddwyn fel plant oes Victoria.

Bu'r Babanod yn y Miwni yn gweld cynhyrchiad o Sali Mali gan S4C.

Cynhaliwyd disgo Calan Gaeaf i'r adran Iau gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Diolch i Rhodri Francis am ei wasanaeth fel DJ.

Daeth Mrs Moses, Is-gadeirydd Cyngor RhCT i'r ysgol i dderbyn siec i gronfa llid yr ymennydd, sef apel arbennig y maer. Casglwyd yr arian yn ystod ein gwasanaeth Cynhaeaf.

Brodwaith y Milflwydd
Diolch o galon i'r plant ac i Mrs Lisa Thomas ein cydlynydd celf am fynd ati i greu cyfraniad yr ysgol at yr arddangosfa yng Nghromen y Milflwydd.

Rygbi
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol - mae'r canlyniadau wedi bod yn wych yn ddiweddar. llongyfarchiadau hefyd i'r tîm rhwydbel ar drechu tîm Castellau yn ddiweddar.

Aeth Christopher Lidden i gynrychioli Ysgolion Pontypridd yn Seremoni Cloi Cwpan Rygbi'r Byd Ym Maes Y Milflwydd.

Actio
Dewiswyd Cari Bailyes i actio mewn rhaglen newydd ar gyfer y teledu. Cawn glywed ei hanes yn rhifyn nesaf Tafod Elái

Digwyddiadau:
Bydd ffair Nadolig a ffair Lyfrau yn cael eu cynnal yn neuadd yr ysgol nos
Iau , Rhagfyr 2il.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig CA1+2 yng Nghapel Sardis, Nos Fawrth Rhagfyr 7fed am 6.30 pm.

Ysgol Pont Siôn Norton

Sioeau
Bu'r babanod yn gweld sioe Sali Mali yn y Miwni ddiwedd mis Tachwedd.

Fe aeth Blwyddyn 3 a 4 i'r Sherman i weld perfformiad o'r 'Twits' (Roald Dahl)

Aeth Blwyddyn 5 a 6 i weld ffilm 'Gwr y Gwyrthiau' yn y Coleseum yn Aberdâr.

Cystadleuaeth Cardiau Nadolig
Cynhaliwyd cystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig yn yr ysgol eleni a dewiswyd un enillydd o bob dosbarth yn yr ysgol. Dyma restr o'r enillwyr:

Jonathan Tucker	(Meithrin)
Rhodri Bennet	(Derbyn)
Joshua Holland	(Derbyn)
Branwen Thomas	(Blwyddyn 1)
Emma Higgins	(Blwyddyn 2)
Bethan Alys Jones	(Blwyddyn 3)
Grant Rowsell	(Blwyddyn 4)
Aled Higgins	(Blwyddyn 5)
Emyr Chinnock	(Blwyddyn 5)
Gwenno Jones	(Blwyddyn 6)

Mae pecynnau o 10 o gardiau cymysg ar werth yn yr ysgol am £2.50. Llongyfarchiadau i'r enillwyr.

Pêl-droed
Fe fydd tîm pêl-droed 5 bob ochr yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd Dydd Llun, Tachwedd 29ain yng Nghanolfan Chwaracon Abercynon.

NEWYDDION O'R DREF

Gwellhad Buan
Rydym yn falch o glywed fod tadcu Osian a Mirain Williams, Tyfica Rd; sef y Parch Keith Phillips y Porth yn gwella ar ôl llawdriniaeth y mis diwethaf yn Ysbyty'r Waun Caerdydd.

Wyres
Llongyfarchiadau i Maralyn a Mike Edwards Graigwen ar eni wyres. Cafodd ei merch Emma Jane ferch fach y mis diwethaf.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Owain Llywelyn, Graigwen a Marged Esli ar eu dyweddiad.

Ymweliad yr Eidalwyr
Bydd tri o Eidalwyr yn ymweld ag ysgolion yr ardal wythnos olaf Tachwedd. Mae ysgolion Pont Siôn Norton ac Evan James yn gyfarwydd â'r ymwelwyr yma ac mae'r plant yn cadw mewn cysylltiad â phlant yn yr Eidal ers blynyddoedd bellach.

Fe fydd yr ymwelwyr yn aros yn yr ardal am bum niwrnod ac mae gwahanol weithgareddau wedi eu trefnu i'w croesawu yma.

Ymwelydd Arbennig
Fe alwodd ymwelydd arbennig i mewn i'r ysgol Ddydd Gwener, Tachwedd 26ain i siarad â phlant Blwyddyn 5 a 6. Roedd y plant wrth eu bodd yn holi ac yn siarad gyda David Young, rhif 3 tîm Cymru. Cafwyd sesiwn holi ac ateb, ac fe ddaeth â llawer o bosteri wedi eu harwyddo ganddo i'w dosbarthu i'r plant.

Ffair Nadolig
Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol nos Wener, Rhagfyr 3ydd. Fe fydd yna thema Fictorianaidd i'r Ffair eleni ac wrth gwrs fe fydd ymweliad gan y dyn pwysig ei hun, Siôn Corn.

Cyngherddau Nadolig
Rhagfyr 7fed Sioe y Babanod 'Y Goeden Fach Hardd'
Rhagfyr 8fed a 9fed Sioe yr adran Iau 'Scrooge'

Cynhelir y perfformiadau y dair noson yn neuadd Ysgol Gyfun Coed-y-Lan, Cilfynydd.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

Doniau disglair
Llongyfarchiadau i Lowri Morris, Troed y Garth. Dewiswyd ei gwaith Celf TGAU ar gyfer arddangosfa ddiweddar yng Nghanolfan Celf a Chrefft Pontypridd. Mae'n amlwg ei bod wedi etifeddu dawn artistig ei mam!

Pêl-rwyd
Cafodd Cerian Hughes, Maes y Sarn brofiad diddorol yn ddiweddar pan ddewiswyd hi fel un o ferched y bêl ar gyfer gemau rhyngwladol pêl-rwyd ryngwladol yn yr Arena Rhyngwladol yng Nghaerdydd. Cafodd gyfle i weld Awstralia, Seland Newydd a Lloegr yn chwarae.

Merched Y Wawr
Daeth Hannah Roberts o Gaerdydd i gyfarfod Mis Tachwedd a chafwyd noson ddiddorol yn gwrando arni'n sôn am fotymau arbennig oedd yn dwyn atgofion personol iddi.
Meryl Mowbray o Faes y Sarn oedd enillydd yr hamper a baratowyd gan yr aelodau ar gyfer y ffair i godi arian at Neuadd y Pentref. Llongyfarchiadau iddi hi! Deallwn ei bod wrth ei bodd gyda'r wobr.

Ar y Llwyfan
Da oedd gweld cynrychiolaeth o'r pentref ar lwyfan yr Ŵyl Gerdd Dant eto eleni. Llongyfarchiadau i Ifan Roberts Tŷ Cnau a gweddill aelodau Parti'r Efail ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth i bartion cerdd dant.
Hefyd gwelwyd llawer o ieuenctid y pentref yn dangos eu doniau ar lwyfan Yr Ŵyl Ddrama; Catrin Heledd yn rhan o ddrama Ysgol Gyfun Llanhari a Deri Hughes, Lowri Morris, Heledd Morris, ac Amy Coombes yn rhan o banto llwyddiannus yr ysgol.

Ar y Sgrîn
Ymddangosodd Nia Morris, Troed y Garth, Cai a Catrin Parry Jones Lon y Fro, a Gwilym Hughes, Dol y Coed ar Uned 5 yn ddiweddar. Cawsant gyfle i weld "Gŵr y Gwyrthiau" ac wedyn teithio i Gaernarfon i roi eu sylwadau am y ffilm ar y teledu.

Talwrn y Beirdd
Trodd gwahoddiad Clwb y Dwrlyn i'r BBC recordio Talwrn y Beirdd yn ein mysg yn "ddarbi" rhwng dau dîm lleol - Aberhafren a'r Dwrlyn. Mae'r ddau dim yn gynnyrch dosbarthiadau nos "Nyddu'r cynganeddion" (Rhys Dafis) lawr yn festri Gwaelod y Garth - yn wir mae trydydd tîm sef "Yr Awyr iach" hefyd yn ddisgyblion yr ysgol ryfeddol hon ar nos Fawrth.

Os bu i chi ymuno â'r gynulleidfa yng ngwesty'r Ansawdd neu eich bod yn darllen y nodyn hwn ar ôl 28 neu 30 Tachwedd (amser y darllediadau), yna fe fyddwch yn gwybod pwy faeddodd ar y noson. Os na chlywsoch y rhaglen o gwbl - holwch unrhyw un o'r aelodau - Rhodri Gwynn-Jones, Menna Thomas, Emyr Phillips, Huw Llewelyn Davies ac Ifan Roberts (Tîm Y Dwrlyn) neu Rhys Dafis, Tony Bianchi a Nia Evans, (Tîm Aberhafren) gydag Efa Gruffydd a Mari George ar fenthyg o griw'r Awyr Iach.

SIOP BARA Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

Dathlu Penblwydd.
Llongyfarchiadau i Mair Harries, Llys Celyn, Tonteg sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed ym mis Tachwedd, a phob dymuniad da iddi yn y mileniwm newydd.

Ar y Radio.
Braf oedd clywed llais Aneira Davies, Tonteg, ar y radio yn adrodd hanesion am yr amser pan oedd hi'n nyrs yn Rhydfelen. O wrando ar ei sgwrsio byrlymus gyda Nia, teimlem y gallai Aneira lenwi sawl rhaglen gyda'i hanesion difyr.

Brysia Wella
Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Rhiannon Humphreys, Y Padocs, ar ôl iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

APÊL SGANIWR MRI YSBYTY MORGANNWG

Cyngerdd Nadolig
Côr Godre'r Garth

Nos Sul 7pm
12 Rhagfyr 1999
Capel y Tabernacl, Efail Isaf

Tocynnau: £3
01443 207929

CANMOLIAETH UCHEL I YSGOL FEITHRIN

Judith Gough ac Ann Williams gyda'r plant yng nghornel darllen Ysgol Feithrin Gwaelod y Garth

Mae Cylch Meithrin Gwaelod-y-Garth newydd gael ei arolwg cyntaf gan Arolygiaeth Addysg y Llywodraeth, ac mae'n bleser i ddweud, derbyniodd y feithrin y ganmoliaeth uchaf posib ym mhob agwedd o'i gweithgareddau. Nid oedd un nam o gwbwl ar y Cylch Meithrin.

Cynhelir y Cylch Meithrin yn Festri Capel Bethlehem, ac mae'n cael ei arwain gan Ann Williams o Ffynnon Taf, a'r arweinydd cynorthwyol, Judith Gough, hefyd o Ffynnon Taf. Dechreuwyd y Cylch Meithrin degawd yn ôl ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn edrych ar ôl un ar bymtheg o blant, o ddwy a hanner i bedwar oed, gyda rhai yn aros drwy'r dydd. Mae yna arolygwraig anghenion arbennig, Jean Lewis, sy'n dod tri bore yr wythnos, a arolygwraig amser cinio, Andrea Connolly.

Arolygwyd y Cylch Meithrin yn y chwe maes dysgu: 1) Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu, 2) Datblygiad personol a chymdeithasol. 3) Datblygiad mathemategol. 4) Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, 5) Datblygiad corfforol. 6) Datblygiad creadigol a hefyd pedair maes arall: 7) Cynllunio, 8) Addysgu. 9) Asesu. 10) Partneriaeth â rhieni a gofalwyr.

Ym mhob un o'r deg maes y feirniadaeth oedd: "Yn debyg o hyrwyddo'r canlyniadau dymunol" ac ym mhob un o'r deg maes, o dan Diffygion dywedodd yr arolygwr "Nid oes diffygion amlwg". Mae'r Cylch Meithrin yn deall fod y ddau ymadrodd yma yn dangos y ganmoliaeth uchaf posib.

Mae'r Cylch Meithrin, a oedd y gwybod cyn yr arolwg ei fod yn mynd i fod yn llym iawn, wedi deall fod adroddiadau yn dangos y math yma o wychder cant y cant yn brin iawn.

Dyma rhai sylwadau o dan y pennawd Nodweddion Da ym mhob un o'r chwe maes o ddysgu:

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu: "Y mae'r plant yn deall ac yn gallu cyfathrebu yn eu mamiaith ... Deallant swyddogaeth ysgrifennu... gallu adnabod eu henwau personol."

Datblygiad personol a chymdeithasol: "Y mae'r plant yn hyderus yng nghwmni ei gilydd. Dangosant barch tuag at ei gilydd a tuag at y staff... Byddant yn cymryd byrbryd ac yn cael cinio gyda'i gilydd wrth fod yn gwrtais... Ymatebant gyda brwdfrydedd i amrywiaeth eang o weithgareddau ieithyddol, creadigol a chorfforo newydd."

Datblygiad mathemategol: "Y mae'r plant yn gallu rhifo hyd at bedwar ar ddeg... yn gallu didoli, trefnu a chymharu... adnabod siapau sylfaenol... Cofiant ystod o gancuon rhifo a chlywant storïau rhif."

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd: "Caiff y plant amrywiaeth o brofiadau cyffrous drwy chwarae rôl... Y mae ganddynt afael dda ar y syniadau o amser a'r tywydd... maent yn ymwybodol o ddyddiau'r wythnos... Gwyddant am y tymhorau... Deallant am grefyddau eraill... Ânt ar ymweliadau i leoedd diddorol."

Datblygiad corfforol: "Symuda'r plant yn ddisgybledig ac yn ofalus yn y dosbarth... Trafodant gyfarpar bach megis blociau amrywiol, ac anifeiliaid y fferm, trenau a rheiliau yn rhwydd, ac yn hyderus... Ânt allan i chwarae... ânt am dro mewn gwahanol fannau yn y pentref yn achlysurol... Gallant wneud gweithgareddau amrywiol megis neidio, sgipio, rhedeg, cerdded, a dringo a chanant wrth symud.

Datblygiad creadigol: "Y mae'r plant yn cofio ac yn mwynhau canu amrywiaeth fawr o gancuon ar donau... Defnyddiant baent, papur wedi'i dorri, a chreonau... brofiadau da iawn o werthfawrogi gwaith ei gilydd drwy sesiynau ar edrych yn fanwl ar ddarnau o waith creadigol pob unigolyn... Cant fwynhad amlwg wrth chwarae rôl... ac wrth wisgo lan fel cymeriadau dychmygus yn y cornel gwisgo."

Rhai sylwadau eraill oedd:

Cynllunio. "Cynllunnir y gweithgareddau yn fanwl... gan roi sylw priodol i'r chwe maes dysgu... Dengys yr amserlen gydbwysedd rhwng gweithgareddau dosbarth, gweithgareddau rhydd a gweithgareddau grŵp... Cryfder yw bod gan y pennaeth gynlluniau ar gyfer datblygu'r feithrinfa yn y dyfodol."

Addysgu. "Y mae'r cyfathrebu a'r plant yn briodol ac yn drylwyr... Rheolir y dydd yn drefnus iawn... mae gan y staff ffeiliau personol gwerthfawr o adnoddau addas ar gyfer gwahanol themâu."

Asesiad, "Trefnwyd i ddefnyddio taflenni asesu unigol i bob plentyn..."

Partneriaeth â rhieni a gofalwr. "Gohebir a rhieni yn gyson ar bob agwedd ar waith y feithrinfa... Y mae rhieni'n hapus gyda gwaith y feithrinfa."

Mae Cylch Meithrin Gwaelod-y-Garth yn rhan o Fudiad Ysgolion Meithrin.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Llongyfarchiadau!
I Geraint a Ceri, y Teras', Creigiau, ar eu priodas ychydig yn ôl. Pob hapusrwydd i'r ddau.

Gwellhad
Da deall bod Rebecca Ellis Owen wedi gwella digon i ddychwelyd i'w swydd wedi damwain ddifrifol yn ystod yr haf eleni. Yn Llundain mae Rebecca yn gweithio, ym myd P.R. ac yno wrth reswm mae wedi gwneud ei chartref. Yn Llundain hefyd mae ei chwiorydd Catrin a Sara ar hyn o bryd. Catrin yn athrawes Hanes mewn ysgol uwchradd, a Sara yn gorffen ei herthyglau.

Croeso'n ôl!
'Sdim llawer ers i ni ddymuno yn dda i Carwen, Ian, Steffan a Rhys wrth iddynt ffarwelio â'r pentref a chodi pac am yr Alban - wel, bellach, ddwy flynedd yn ddiweddarach, oherwydd galwadau gwaith Ian, maent wedi dychwelyd i'r Creigiau, ac yn falch iawn o fod wedi symud i'w cartref newydd yn y Coach House, Creigiau.. Yn Llundain a thu hwnt mae Ian yn gweithio, felly pa le mwy cyfleus na'r Creigiau i ail osod gwreiddiau?

Symud i'r Groesfaen
Dymuniadau gorau i Sharon a Nigel Griffiths, Mathew a Rebecca sy ar fin symud i'w cartref newydd yn y Parc, Groesfaen. Heb fod yn rhy bell i gadw mewn cysylltiad!

Capten y Merched!
Dymuniadau gorau i Jenny Pryce, Clos Darran Las, Creigiau wrth iddi gychwyn ar ei thymor yn gapten ar adran y merched yng Nghlwb Golff Creigiau. Mae Jenny wedi gweithio'n ddiflino dros y blynyddoedd ar ran adran y merched ac yn llawn haeddu'r anrhydedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Jenny MacDonald a Thora Lewis ar iddynt gael eu hethol yn aelodau o bwyllgor newydd adran y merched yn y Clwb Golff. Lwc dda iddynt wrth eu gwaith.

Gwneud Sblash!
Fe aiff rhai pobol i gryn drafferth i gyhoeddi eu dyfodiad i'r Creigiau, a doedd Tomos Preest yn sicr ddim yn mynd i aros am ddwy flynedd cyn cael ei groesawu i'r pentref yma! Mab bach newydd sbon Geraint ac Annette Preest, a brawd bach Gwilym ydy Tomos - fe symudodd y teulu Preest i'w cartref newydd yn 5, Llys Illtyd ddim ond ychydig iawn yn ôl - heb Tomos, sylwer! Wel, toc ar ôl y mudo penderfynodd Tomos na allai aros ddim mwy - cafodd ei eni ar frys mawr, ben bore, Hydref yr ugeinfed yn y cartref newydd! Lwcus efallai taw meddygon ydy Geraint ac Annette! Felly - llongyfarchiadau a chroeso cynnes i bawb!

Croeso hwyr arall
Y tro hwn i Carys Non Davies - yn enedigol o Abergwili, ond sydd bellach wedi ymgartrefu yn 28, Dol y Felin, Creigiau. Athrawes yn ysgol gynradd Radur ydy Carys. Wedi iddi raddio o goleg y Drindod, Caerfyrddin aeth allan i Awstralia i weithio am flwyddyn, fel athrawes, ac yna wedi dychwelyd, gwnaeth astudio ar gyfer ei M.A. mewn Hanes. Gobeithio y bydd yn hapus yma yn y Creigiau.

Ffarwelio â gwr bonheddig.
Fydd Siop Londis fyth yr un fath! Chwith iawn yw cofnodi ymddeoliad Jim Smart - y siopwr hynaws, difyr, diwylliedig sydd wedi rhedeg siop y pentref er yn agos i bedair blynedd ar ddeg. Bydd yn gwneud ei gartref yn Nyfnaint, ac yno gobeithia gael amser i ddilyn ei ddiddordebau - sef peintio a chwarae petanque. Dymuniadau gorau iddo - a diolch am ei hynawsedd a'i groeso bob amser.

Croeso - o'r diwedd!
Am ba hyd dybiwch chi, mae'n rhaid i chi fyw yn y Creigiau, cyn i chi dderbyn croeso gan y Tafod? Wel, mae'n ymddangos, yn achos teulu'r Richards' Maes y Nant - cryn ddwy flynedd! Ac mae hynny ar ôl i mi gael fatgoffa yn gyson gan y bonwr Rowland Wynne mod i wedi esgeuluso fy nghyfrifoldeb. Mae'r croeso yr un mor gynnes, serch hynny.

Symudodd Heddwyn a Pegi i'r Creigiau, do, ddwy flynedd yn ôl. Mae Pegi yn hanu o Ddeiniolen, ond wedi byw ei bywyd cynnar yn Abergele, lle roedd ei thad, y Parch William Griffith, M.A. yn gofalu am gapel Mynydd Seion. Mae Heddwyn yn hanu o Faesybont (un o'r trefi mwyaf yn Sir Gaerfyrddin - medde fe!) , a thraddodiad y gweithiau glo yn gryf yn ei wythiennau.Yn y Brifysgol yn Aberystwyth y cyfarfu y ddau - ac yn ôl Heddwyn, Pegi yn gweld y goleuni a throi at yr Eglwys yng Nghymru. Mae eu merch Sian Chapman, sy'n nyrs gymunedol yn yr ardal hon, a'i theulu, Ian y gwr, Dafydd a Bethan , y plant wedi byw ym Mharc y Coed ers blynyddoedd bellach - Dafydd yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, a Bethan yn ddisgybl yn ysgol Llanhari. Henri, eu labrador euraidd, sy'n rheoli eu cartref erbyn hyn, heb os! Bu Pegi yn dysgu am beth amser, ond ysgrifenyddes ydoedd am y rhan helaethaf o'i gyrfa cyn ymddeol o'i swydd ~yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan. Mae Heddwyn newydd ymddeol ar ôl gyrfa ym myd addysg - am yr ugain mlynedd diwethaf bu'n aelod o staff y Brifysgol Agored yng Nghymru - ac y mae'n parhau i weithio fel tiwtor rhan-amser ar un o'r cyrsiau gwyddonol. Croeso cynnes i chi'ch dau.

Os am
DIWNIWR PIANO

Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

YSGOL CREIGIAU

Cylch Meithrin ar Daith

Pel droed
Chwaraeodd tim pêl droed Ysgol Creigiau yn erbyn tîm pêl droed Ysgol Trefforest. Gêmau cyfartal oedd y tair. Yn y gêm olaf y sgor oedd 3-0 i Greigiau. Roedd Mr Evans yn blest. Ddydd Gwener y 19 o Dachwedd chwaraeodd tîm pêl droed Ysgol Creiglau mewn cystadleuaeth yng Ngerddi Soffia. Yn y gêm gyntaf chwaraeon ni Llanishen Fach A a chollon ni 2-1. Yn yr ail gêm chwaraeon ni Melin Gruffydd B a enillon ni 6-0. Yn y drydedd gêm y sgôr oedd 1-1. Chwaraeon ni'n dda.

Pêl Rwyd
Chwaraeodd tim pel rwyd Ysgol Creigiau yn erbyn Eglwys Newydd. Y sgor oedd 3-1 i Eglwys Newydd. Chwaraeodd tim pêl rwyd Creigiau yn erbyn Penygawsi. Enillodd Creigiau 5-1. Chwaraeon ni'n dda.

Dwy funud o dawelwch.
Roedd Adran Iau yr ysgol wedi mynd ar yr iard a bod yn dawel am ddwy funud. Roedden ni'n dawel i gofio am y bobol oedd wedi marw yn y ddau Ryfel Byd.

Operation Christmas Child
Llanwyd 175 o focsus eleni. Byddant yn mynd i blant yn Bosnia a Cosovo.

Traddodiadau Nadolig
Aeth Dosbarth Pump a Dosbarth Pedwar ar drip i Sain Ffagan i weld hen draddodiadau'r Nadolig. Roedd yn oerach yn y capel nag yr oedd hi y tu allan! Fe ddysgom lawer ac roedd y cyflaith blasus yn sicrhau. bod pawb yn dawel ar y ffordd yn ôl.

Dyma blant Cylch Meithrin Creigiau gyda'u rhieni a'i brodyr a chwiorydd yn mwynhau trip ar fws to agored o gwmpas Caerdydd. Gofynnodd Cwmni Teledu Antena os fydde diddordeb gan y Cylch gymeryd rhan mewn cyfres newydd o'r rhaglen deledu plant 'Tŷ ni, Tŷ chi'. Trafnidiaeth fydd pwnc trafod y gyfres newydd. Roedd y plant yn arbennig o dda tra'n cael eu ffilmio, ac yn lwcus fe gawsom dywydd bendigedig. Fe fydd y rhaglen yn cael ei ddarlledu yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Parti'r Efail yn cystadlu yng Ngŵyl Cerdd Dant Corwen ym mis Tachwedd

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

Croeso
Croeso i'n plith i'r Parchedig Stephen Ambani Ficer newydd Tonyrefail, Gilfach Goch a Llandyfodwg. Cynhaliwyd y Cyfarfod Sefydlu yn Eglwys Dewi Sant Tonyrefail nos Fawrth Tachwedd 9ed pan ddaeth tyrfa i weld y Gwir Barchedig y Dr Barry Morgan, Esgob Llandaf ac Archddeacon Margam yr Hybarch Martin Williams yn ei sefydlu. Gobeithiwn y bydd y Ficer newydd yn hapus yn ein mysg a bydded bendith Duw ar ei weinidogaeth.

Drama
Ymwelodd cwmni Drama 'Spectacle' â'r cwm nos Sadwrn Tachwedd 13 gyda' u cynhyrchiad o "Over Milk Wood" gan Dic Edwards . Mae'r ddrama yn dychmygu Mr Pugh y gwenwynwr o "Dan Y Wenallt" yn ymweld a' r dafarn yn yr Unol Daleithiau lle yfodd Dylan Thomas ei wisgi olaf. Wedi'r perfformiad roedd cyfle i drafod y cynhyrchiad gyda'r actorion. Diolch i Mrs. Ros Davis swyddog y celfyddydau am drefnu'r noson.

Bu cwmni Drama Gilfach Goch yn perfformio 'Last Tango' yn ddiweddar er mwyn codi arian at achosion da . Rhoddwyd perfformiad ym Maes yr Haf Trealaw er mwyn codi arian tuag at Sganiwr i'r ysbyty newydd, ac yn Ysgol Craig Y Parc i godi arian i'r ysgol.

Gweu at y Nadolig
Mae Merched y Dosbarth Gwnio a Chrefftau wedi bod wrthi yn ystod y misoedd diwethaf yn gweu bathodynnau ac addurniadau coeden Nadolig i'w gwerthu er budd ysbyty Felindre. Mae Mrs Mair Cowley yn haeddu clod arbennig gan iddi weu 500 o fathodynnau celyn ei hunan. Llongyfarchiadau a diolch yn fawr Mair.

Dawnsio
Mae'n drist i gofnodi diwedd rhywbeth ond dyna yw hanes dosbarth dawnsio nos Fawrth yn y Social. Bu'r dosbarth mewn bodolaeth ers dros 30 o flynyddoedd ond mae'n rhaid gorffen oherwydd diffyg cefnogaeth.

Gilfach Ddoe a Heddiw
Mae grwp wedi bod yn cyfarfod ar nos Fawrth yn ddiweddar yn y Neuadd Gymunedol yn paratoi. lluniau ar gyfer arddangosfa o Gilfach Ddoe a Heddiw. Mae pobl wedi dod â hen luniau a hen bethau i dynnu lluniau ohonynt ar gyfer arddangosfa yn y flwyddyn Newydd. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld ffrwyth eu llafur..

Allech chi fod yn Gyfaill?
Os ydych yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu gweld eich hunan fel

Cysylltwch â CYD nawr!
Mae'n gwneud byd o wahaniaeth i ddysgwyr os ydyn nhw'n gallu cyfathrebu â Chymry Cymraeg trwy lythyr, ffôn neu e-bost. Os hoffech chi helpu, anfonwch manylion o'ch
- enw
- cyfeiriad
- rhif ffôn (os berthnasol)
- cyfeiriad e-bost (os berthnasol)
- oedran (yn fras)
- a diddordebau

i CYD, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU.
Ffôn/ffacs: (01970) 622143.
E-bost ljt998@aber.ac.uk
a gwnawn gwedwch pa fath o ffrind (llythyr, ffôn neu e-bost) yr hoffech fod.
Cofiwch, does dim angen llythyr na sgwrs hir.

Cyngor Y Dref Pontypridd

Prif Swyddog Gweinyddol
Cyflog tua £16,000

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio yn Adran Weinyddol Cyngor Tref Pontypridd ac yn gweithredu'n Ddirprwy i'r Prif Weithredydd. Fel awdurdod modern a blaengar, rydym yn ceisio unigolyn a fydd nid yn unig yn ysgwyddo cyfrifoldeb am sicrhau bod cyfrifon yr Awdurdod yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio'n ffurfiol yn y diwyg penodedig ond hefyd yn helpu i arwain y Cyngor i'r mileniwm nesaf drwy wireddu amcanion polisi creiddiol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am oruchwylio staff y Cyngor o ddydd i ddydd, gydag atebolrwydd uniongyrchol i'r Prif Weithredydd, a bydd gofyn iddo/i amlygu blaengarwch ym maes datblygu prosiectau. Mae medrau TG ardderchog yn hanfodol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn gweithio tuag at sicrhau cyllid allanol gan amrywiol gyrff cyhoeddus a phreifat.

Bydd yn ofynnol mynychu rhai cyfarfodydd gyda'r nos. Byddai trwydded yrru lawn a'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais bendant.
Adeg gwneud cais, rhaid i bob ymgeisydd ddatgelu perthynas ag unrhyw un o aelodau neu Swyddogion y Cyngor.

I gael pecyn gwybodaeth, cysylltwch â Mr Roger Davies, Prif Weithredydd, Cyngor Tref Pontypridd, 133 Berw Rd, Pontypridd CF37 2AA. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Mercher 15 Rhagfyr 1999.

Mae Cyngor Tref Pontypridd wedi ymrwymo i egwyddor Cyfle Cyfartal. Bydd croeso arbennig i geisiadau gan yr anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig, gan fod y rhain ar hyn o bryd wedi eu tangynrychioli yn ein gweithlu.

YSGOL GYFUN LLANHARI

LLEDDFU PRYDERON

Ar ddydd Mercher y 27ain o Hydref gwahoddwyd criw CGCC yr ysgol a'r tîm dawnsio gwerin i ddiddanu ac i weini te mewn cyfarfod yng Nghanolfan hamdden Llantrisant. Bwriad y prynhawn oedd i leddfu'r ansicrwydd a'r ofn sydd yn bodoli yn ein cymdeithas heddiw ac i arddangos nifer o gamau diogelwch a ellid eu cymeryd er mwyn lleddfu'r posibilrwydd o drais yn erbyn eiddo neu berson.

Perfformiwyd un ddawns draddodiadol ac un darn offerynnol traddodiadol gan grŵp offerynnol ifanc Llanhari. Perfformiwyd dawns y glocsen gan Eifion Weinzweig ac fe fu'r prynhawn yn llwyddiant mawr.

Ar ôl y cyfarfod gweinwyd y te gan ddisgyblion y cwrs Arlwyo CGCC ac fe fu'r profiad o drafod a'r cyhoedd unwaith eto yn help i ddatblygu eu sgiliau ymarferol a chyfathrebu.

Adrian Jones

Eifion yn gwneud dawns y glocsen

Grŵp offerynol Llanhari

Grŵp Stepio Llanhari

YR ŴYL GERDD DANT

Yn ystod penwythnos 12ed/13eg bu tîm dawns Ysgol Llanhari yn cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghorwen. Aeth criw ohonom i fyny ac aros dros nos yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn. Roedd yn benwythnos prysur - nofio, ymarferion bowlio deg ar nos Wener a gorfod codi am 6.30 er mwyn cyrraedd y rhagbrofion am 8.15 ar fore Sadwrn (er i ni fod ychydig yn hwyr ar ôl colli ffordd i'r rhagbrofion!).

Roedd y cystadlu yn frwd ac er i'r tîm ifanc ddawnsio'n ysgafn droed, gwenu ac ymateb - pedwerydd safle oedd dyfarniad y beirniad. Newyddion da serch hynny i'r clocswyr sef Nia Joille ac Eifion Weinzweig, Lloyd George, Nicola Herne a Johnathan Phillips. Er mai newydd ddechrau ymarfer oedd y tîm cafodd y grŵp brofiad o ddawnsio ar lwyfan yr Ŵyl a'r profiad o fod yn rhan o raglen S4C y noson honno. 3ydd oedd dyfarniad y beirniad y tro hwn ond rwy'n siŵr y cawn weld a chlywed fwy wrth y dawnswyr ifanc yn y dyfodol agos. Llongyfarchiadau unwaith eto.

Adrian Jones.

PANTO 6ed LLANHARI

Erbyn hyn mae'n draddodiad i aelodau 6ed dosbarth Ysgol Llanhari gymeryd rhan yn y gystadleuaeth Pantomeim yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái ac ennill y tlws.

Dros y 4 wythnos diwethaf mae tua 25 o aelodau blwyddyn 12 wedi bod wrthi yn ymarfer ar gyfer cynhyrchiad eleni sef "Yn y goedwig" a gafodd ei ysgrifennu gan Meilyr Hedd ap Ifan.

Lleolwyd y panto yn nheyrnas hud y brenin Llew. Mae'r panto yn cychwyn ym mharti penblwydd Gwen merch y brenin ond chwalwyd y dathliadau wrth i lais ofnus y wrach gas Ceridwen Chwilen atgoffa Gwen fod ganddi 3 diwrnod i briodi neu fe fydd teyrnas heddychlon ei thad yn cael ei drosglwyddo i grafangau Cathreulgar yr hen wrach.

Ymunwch a Twm a'r ffrindiau yn eu her i achub y goedwig.

Jordan Morgan Hughes

Sarah Kisby, Bl12 yn sgwrsio gyda'r henoed

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

Plant o ddosbarthiadau 5C, 4C a 2E yn dangos Tapestri y Mileniwm gyda'u hathrawon, Mrs Madden a Sara Godfrey.

DARNAU'N DISGYN I'W LLE

Mae'r profiad o wnïo a gwcu tapestri'r Mileniwm wedi bod yn werthfawr i blant Ysgol Gwaelod-y-Garth.

"Roedd y chwedeg o blant yn gyffro i gyd pan welon nhw'r cynnyrch gorffenedig ac yn synnu eu bod wedi cwpla'r gwaith mewn cyn lleied o amser-tair wythnos a hanner," meddai Sara Godfrey a brynodd y defnydd a chynllunio'r tapestri.

"Roedd y plant yn falch iawn," meddai. "Roedden nhw wrth eu bodd yn gwnïo a gwcu oherwydd dyn nhw ddim yn cael cyfle i wneud hyn fel arfer yn yr ysgol."

Chwaracodd 40 o oedolion eu rhan yn y prosiect, gan gynnwys rhieni, pobl leol, athrawon, athrawon cynorthwyol, y gofalwr, y gogyddes, a'r menywod cinio. Roedd June Madden a Cissy Morrow o Georgetown yn weithgar.

Thema'r tapestri yw pentre' Gwaelod-y-Garth ac mae'n cynnwys y mynydd, Castell Coch, rhes o fythynnod, yr ysgol, y draphont a dyn y fferi.

Diolch i bawb am eu gwaith caled.

MARCIAU LLAWN

Llongyfarchiadau i Ann Williams, Judith Gough a Jean Lewis ar ôl iddyn nhw dderbyn adroddiad arolwg ardderchog..

Yn ôl yr arolygwyr, doedd dim "mannau gwan" o gwbwl yng ngweithgareddau Cylch Meithrin Gwaelod-y-Garth. Roedd yr adroddiad yn dweud:

a. Fod y plant yn hyderus

b. Fod y plant yn dangos parch at ei gilydd ac at y staff

c. Eu bod yn gwrtais wrth fwyta

ch. Eu bod yn frwdfrydig wrth ymateb i weithgareddau ieithyddol, creadigol a chorfforol.

Anne Williams, yr arweinydd, a Judith Gough, yr arweinydd cynorthwyol, sefydlodd y Cylch ddeng mlynedd yn ôl.

YSGOL FEITHRIN FFYNNON TAF

Mae Heather Davies-Rollinson, cyn-arweinydd Ysgol Feithrin Ffynnon Taf, wedi ei phenodi'n Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin yn ardal Rhondda Cynon Taf ac mae Julia Rowe, ei chynorthwy-ydd, newydd ymddeol.

"Mae'r ddwy wedi defnyddio eu sgiliau i sicrhau fod yr ysgol feithrin yn hapus a llwyddiannus," meddai Joy Johns, yr ysgrifenyddes, sy'n byw yn Nhongwynlais. "Rwy'n siwr fod rhieni'r ardal yn ddiolchgar iddyn nhw am roi cychwyn da i addysg eu plant."

Wrth inni fynd i'r Wasg, roedd y Pwyllgor yn paratoi rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer y ddwy swydd newydd.

MARW IVOR MORRIS

Yn dawel yng Nghartre' Nyrsio Dyffryn Ffrwd, Nantgarw, fe fu farw Ivor James Morris (George Wimpey), gŵr y diweddar Phyllis, tad Patricia, Robert ac Anthony. Roedd y gwasanaeth yng Nghapel Gorffwys Basil Jenkins, Trefforest, a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd.

PREGETHWR NEWYDD?

Roedd cynulleidfa fawr yng Nghapel Bethlehem ar Dachwedd 21 pan bregethodd y Parchedig Gareth Rowlands sy' wedi mynegi diddordeb mewn bod yn weinidog newydd.

"Mae'n dod o Lan Ffestiniog nid Blaenau Ffestiniog," meddai Rhodri Gwyn Jones, yr ysgrifennydd. "Mae 'na wahaniaeth.

"Fe aeth i Ysgol y Moelwyn a phan o'n ni yn Ysgol Dyffryn Nantlle yn chwarae yno, roedd ein pengliniau ni'n rhacs oherwydd roedden ni'n chwarae ar gae gracan coch."

Yn y cyfamser, rydym yn deall fod y Gweinidog, y Parchedig Ddoctor T J Davies, yn gwella.

MARW BRENDA CUMMINGS

Gartre' ym Mhontnewydd, Pencoed, fe fu farw Brenda Cummings , gynt o Dŷ Rhiw, Ffynnon Taf, mam Marc a Dean. Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Llangrallo, Penybont.

Tapestri
Ysgol Gwaelod y Garth



DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am oni nodir yn wahanol. Rhagfyr 5: Gweinidog a Chymun; Rhagfyr 12: Ymweld â chartrefi'r henoed; Rhagfyr 19: Oedfa Nadolig y Plant am 5pm; Rhagfyr 25: Oedfa yng ngofal y Gweinidog am 9am; Rhagfyr 26: Plygain am 5pm.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf: bob prynhawn Mawrth yn ystod y tymor, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf, 1.30-3pm. Manylion oddi wrth Heather Rollinson-Davies, 01222 811582.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9-3.15, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: dydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 01222 810241.

DAWNSIO DILYNOL MODERN: bob nos Sadwrn, Neuadd y Pentre', Ffynnon Taf, 7.45-10.15pm. Manylion: 01222 561991. Bob nos Fercher, Neuadd y Pentre', Gwaelod-y-Garth, 7.30pm.

YSGOL GWAELOD-Y-GARTH: Rhagfyr 5: Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn canu carolau. Ymgynnull ym maes parcio Canolfan Arddio Caerffili am 2.45pm. Mwy o fanylion oddi wrth Catrin Redknap ar 01222 843921.

Rhagfyr 8, Cyngerdd Nadolig, Capel Bethlehem, 1.30pm, 6.30pm; Rhagfyr 9, Cyngerdd Nadolig, Capel Bethlehem, 6.30pm.

Rhagfyr 17: diwedd tymor. Ionawr 4: diwrnod hyfforddiant-mewn-swydd i'r athrawon. Ionawr 5: dechrau tymor i'r plant.

WEIGHT WATCHERS: bob nos Iau, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf, 6pm. Mwy o fanylion: 0345 123000.

CWRSO LLOFRUDD Y CHWAREL

Stori'r Daith i Israel

Wrth inni fynd i'r Wasg, roedd ditectifs Heddlu'r De'n holi dyn yn Israel am lofruddiaeth yn Chwarel y Dolomite yng Nghoedwig y Garth yn 1963.

O ddydd Mercher, Tachwedd 24, ymlaen, fe ddechreuodd Ditectif Ringyll a Ditectif Uwch arolygydd holi'r dyn sy'n enedigol o Dde Cymru. Yn ôl yr heddlu, mae'r dyn yn y ddalfa ar ôl cyflawni trosedd arall ac mae trefnu'r ymweliad ag Israel wedi bod yn anodd.

"Fe ddaeth rhywun i siarad â ni ddeunaw mis yn ôl," meddai'r Ditectif Brif Uwcharolygydd Wynne Phillips. "Ar ôl dod o hyd i dystiolaeth newydd, fe benderfynon ni hala dau ddditectif i Israel. Ryn ni'n optimistaidd."

Mae tîm arbennig o ddditectifs yn ailedrych ar 14 o lofruddiaethau sy' heb eu datrys, gyda'r bwriad o ddod o hyd i dystiolaeth newydd. Fe gafodd y llofruddiaeth gynta' ei chyflawni yn 1952.

Stori'r Corff

Roedd criw o fechgyn yn llawn antur pan ddisgynon nhw i lawr twll hen chwarel mwyn haearn rhwng Gwaelod-y-Garth a Pentyrch yn 1963.

Ond fe drodd yr hwyl yn hunlle' pan ddringon nhw i mewn i ogof 200 troedfedd o ddyfnder a dod o hyd i gorff Patricia Simpson, putain o Adamsdown, Caerdydd.

Roedd rhywun wedi taflu'r corff i lawr y twll ar ôl tagu Patricia a'i sgarff sidan du ei hun. Mae'n debyg fod y llofrudd yn siwr na fyddai neb yn dod o hyd i gorff mewn lle mor ynysig.

Ar y pryd roedd yr heddlu'n optimistaidd achos am y tro cynta' yn eu hanes, fe ddefnyddion nhw luniau gwneud Identikit wrth chwilio am y llofrudd.

Fe gyhoeddon nhw lun o "ddyn cyhyrog a phryd tywyll" yn ei bedwardegau cynnar ar ôl i rywun ei weld mewn Morris Minor 1000 du yn hwyr y nos yn Nociau Caerdydd.
Cafodd 5,000 o bobol eu holi a chafodd chwarter miliwn o geir eu harchwilio.

Ond dau fis ar ôl y llofruddiaeth, roedd tro annisgwyl. Cyhoeddodd yr heddlu lun o yrrwr arall, dyn tenau o daldra canolig yn ei ugeiniau hwyr. Roedd 'na amheuaeth ei fod yn gysylltiedig â llythyr a gafodd ei ddanfon at Patricia yn sôn am drefnu cyfarfod.

14eg GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

Beirniadaeth John Pierce Jones

O'r dechrau ar nos Fercher dwi wedi mwynhau fy hun. Difyrrwch pur ac mae'r ymateb wedi ategu hynny. A beth oedd yn galondid mawr i mi oedd gweld y rhai ifanc. Roedd eu safon nhw yn arbennig o uchel. Y bobl sydd wedi hyfforddi nhw y bobl sydd wedi paratoi sgriptiau iddyn nhw a nhw eu hunain wedi bod yn arbennig. Roedden nhw'n wirioneddol dda.

STORI'R SŴ
Cwmni Ysgol Gyfun Llanhari
Mae'r ddrama hon gan Edward Albee yn anodd iawn i'w llwyfannu ac mae'n anodd iawn i gadw diddordeb am ei fod yn eiriol. Dydi hi ddim yn dibynnu ar setiau na phropiau llwyfan felly mae'n rhaid cael actorion da iawn i'w chynnal hi ac i gynnal ein diddordeb ni ynddi hi. Fe ddenodd y ddwy actores ni syth i mewn i'r chwarae wrth agor y ddrama. Roedden ni yn Central Park yn syth ac yn cael ein diddanu gan y ddwy actores. Roedd y gwrthgyferbynnu a'r gwrthdaro rhwng y ddwy yn berffaith a'r llefaru yn naturiol a chredadwy o fewn y cymeriadau. Rhan Paula, Catrin Heledd, oedd yr anodda am fod rhaid chwarae'r rhan i lawr i gael y gwrthgyferbyniad ac fe lwyddwyd i wneud hynny yn dda iawn. Fe gymerodd Alexis Bernard gymeriad Gerry gyda'i dwy law a rhoi perfformiad gwych. Roedd y ddau wrth eu bodd, y symud yn esmwyth a'r llwyfannu yn dda iawn. Cynhyrchiad clodwiw iawn.

Y Gwobrwyon

Tlws Ieuenctid Gorau
Ysgol Gyfun Rhydfelen

Drama Oedolion Orau
Cwmni Pantsmawr.

Actor yr Ŵyl
Alun Jones

Tlws Pantomeim
Cwmni Chweched Llanhari

Cwmni Gorau'r Ŵyl
Ysgol Gyfun Rhydfelen



Alexis Barnard a Catrin Heledd

BYG Y MILENIWM
Cwmni Ysgol Gyfun Rhydfelen
Sgript ardderchog, dychanol gan Dafydd Huws gyda chast o filoedd ac fe roddwyd perfformiad gwych gyda hoel gwaith gyda lot o sbort a hwyl. Cawsom ein diddanu o'r funud cyntaf gyda pherfformiadau yn ein hudo ni i'w byd nhw. Roedd amseru y tri chymeriad yn arbennig o dda Rhodri Jones fel Sws, Osian Llywelyn fel Stan ac Alun Jones fel y Cipar. Roedd perfformiad Alun yn wych - roedd o mor naturiol â hyderus ac yn dweud ei stori yn dda, roedd o'n actio trwy'r amser. Roedd rhaid i ni gredu yn y cymeriadau ac roedd y doniolwch yn naturiol braf. Roedd y dawnsio a'r symud yn dda a'r is-gymeriadu yn wych. Roedd ymateb y gynulleidfa yn dangos fod pawb wedi eu plesio.

CYTHREL CANU
Cwmni Cwm Ni
Agorwyd y llenni i set drawiadol iawn ar gyfer y gyfres o sgetsus gan Islwyn Williams. Roedd y sgetsus wedi dyddio ond fysai wedi bod yn bosib eu haddasu i fod yn fwy cyfoes. Roedd rhai cymeriadau yn gredadwy iawn ac ar y cyfan roeddwn wedi mwynhau y sgetsus.

WRTH AROS GODOT
Cwmni Ysgol Glantaf A
Drama arall fel y Sw sy'n eiriol ac sydd ddim angen llawer o set a drama sy'n dibynnu ar berfformiadau. Roedd yna gynhyrchu ysbrydoledig a dyma'r tro cyntaf i mi weld dwy ferch yn chwarae'r rhannau yn y ddrama ac fe addaswyd y cynhyrchiad ar gyfer yr actorion yn dda. Roedd y perfformiadau yn ardderchog o ystyried oedran yr actorion ond efallai fod y ddrama yn rhy drwm ar gyfer actorion ifanc. Mae egin dwy actores ardderchog yma.

Byg y Mileniwm
Ysgol Rhydfelen

SGORIO
Cwmni Crwys A
Agoriad da gyda set go iawn efo soffa braf a'r tad yn aros am yr enedigaeth. Drama hen ffasiwn ond gyda dechrau, canol a diwedd solet. Roedd Cris Jones yn dda fel y tad yn solet drwy'r ddrama ac roedd Emlyn, Anthony Evans, yn wirioneddol dda. Roeddech chi'n gwybod fod yna gymeriad wedi cyrraedd y llwyfan. Roedd amseru comedi gwych ganddo fo roedd o'n naturiol ac roeddech chi'n credu bob gair oedd o'n dweud - atgoffa fi o Eric Morecambe. Roedd gweddill y cast hefyd yn dda gyda llwyfannu graenus. Perfformiad clodwiw iawn.

YMSON
allan o "Plays by Women"
Cwmni Ysgol Glantaf B
Perfformiad gwefreiddiol gan Mêlisa Mai Annis yn y ddramodig fer yn cael ei chynnal gan un ferch. Gwaith penigamp yn dangos dawn aeddfed iawn ac roedd y Gymraeg ar wefusau hon yn llithro. Oeddach chi'n deall bob gair, roedd ei rhythmau hi'n dda, roedd ei amseru hi'n dda yn y lleddf a'r llon. Perfformiad ardderchog ac roeddwn i'n credu bob gair ddywedodd hi. Roedd hi'n cyfleu yr ing a'r drasiedi yn wych. Dwi'n siwr fod yna ddyfodol disglair iawn iddi.

Cythrel Canu Cwmni CwmNi

Y SIOE
Cwmni Drama Pantsmawr
Athrawon Plasmawr yn diddanu ar eu gorau. Roedden nhw'n wych o'r munud cyrhaeddon nhw'r llwyfan. O'n ni'n rowlio chwerthin, roedd eu hamseru nhw'n dda, roedd eu llwyfannu nhw'n dda ac roedden nhw'n mwynhau go iawn. Roedd ymateb y gynulleidfa yn anhygoel. Yr actorion yn dda a phan ddaeth y Prifathro i mewn wel gawson ni gomedi gwerth chweil. Roedd Rhydderch ap Teits hefyd wedi rhoi perfformiad gwych. Y prifathro yn dda yn amlwg roedden nhw'n adnabod eu cynulleidfa. Gormod o sylwadau am C'mon Middfild a Mr Picton - gawn nhw ddim mwy o farciau am hynny! Rifiw gwreiddiol dda fuasai'n ffitio mewn

Wrth Aros Godot - Ysgol Glantaf

Ymson -Mêlisa Mai Annis
Ysgol Glantaf

GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

GWELLHAD BUAN
Cwmni Crwys B
Agoriad da gyda sain addas a set ddiddorol mewn ystafell wely. Ro'n ni gwybod bron o'r cychwyn mai rhwbio'r ffisig ar ei frest oedd o i fod i wneud - ddim ei lyncu. Perfformiadau da gan Bob Roberts a Iola Llwyd, ambell un yn gor actio ond perfformiad diddorol.

Ysgol Pantsmawr

Sgorio - Cwmni Crwys A

Gwellhad Buan - Cwmni Crwys B

PANTO LLANHARI
Cwmni'r Chweched Llanhari
Panto wedi ei sgwennu gan Mrs Jones (Meilyr Hedd) gyda holl elfennau'r pantomeim. Dawnsio a chan agoriadol dda, y Dywysoges yn canu'n hyfryd, a'r Wrach yn gredadwy iawn. Oedd na sylwadau bachog yn y sgript ac roedd o'n berfformiad gwych.

Panto Llanhari

Y MILIWNIWM
Cwmni'r Pentref
Dyma orffen gwych i'r ŵyl. Cawson ni noson o chwerthin - does dim byd gwell. Roeddwn ni'n meddwl i ddechrau ein bod ni'n mynd i gael perfformiad aml-gyfryngol arbrofol gyda'r ddraig a'r fflach i ddechrau S4C3. Ar ôl y pwt o newyddion ar y teledu gawson ni gomedi sefyllfa fach wirioneddol dda efo caracatures go iawn. Sgript yn dda gyda sylwadau bachog . Roedd hi'n weladwy a doniol gyda'r gynulleidfa yn chwerthin o'r dechrau i'r diwedd. Llongyfarchiadau i chi.

Y Miliwniwn - Cwmni'r Pentref

Rhodri Jones, Alun Jones (Actor yr Ŵyl) ac Osian Llywelyn prif gymeriadau Byg y Mileniwm, Ysgol Rhydfelen

Golygfa o Bantomeim Ysgol Llanhari

MENTER laith

ar waith yn Rhondda Cynon Taf
Tŷ Model, Llantrisant
01443 226386

Parti agor Clwb Carco y Dolau

TYNGED YR IAITH

Rwyf yn teimlo y dylwn i ddweud rhywbeth go fawr er mwyn nodi bod 1999 yn dod i ben a'n bod yn dathlu'r mil flwydd newydd felly beth am y Gymraeg yn y flwyddyn 2000? Roedd Saunders Lewis wedi galw am chwyldro er mwyn adfer y Gymraeg yn ôl ym 1962 ac yn fuan wedyn dechreuodd Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg gyda'r gwahanol ymgyrchoedd megis peintio neu dynnu arwyddion ffyrdd. Mae tipyn o ddŵr wedi mynd o dan y bont yn ystod y tri deg wyth o flynyddoedd ers hynny ond y mae diddordeb pobl Cymru yn y Gymraeg yn gryfach nac erioed mewn gwirionedd.

Cafodd Saunders Lewis ei siomi mewn sawl ffordd gan gynnwys yr ymateb i'w alwad am chwyldro ieithyddol.Gwrthodwyd ei gais gan Blaid Cymru a wnaeth ganolbwyntio ar etholiadau yn hytrach nac ar yr iaith Gymraeg. Do, fe fu ymgyrchu go galed yn enw Cymdeithas yr Iaith, ac wedyn Adfer ac yn hwyrach fe fu ymgyrchu trwy lysoedd a chyfarfodydd blynyddol cwmnïau mawrion o dan arweiniad Eleri Carrog ac yn erbyn cynghorau sirol a chyrff eraill ond prin y gellid dweud i ni weld chwyldro.

Dwi'n ymffrostio yn llwyddiannau'r Fenter Iaith bob mis a gellid dweud bod llawer o lwyddiannau eraill hefyd - Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru ers blynyddoedd lawer, Merched y Wawr, CYD, Addysg Gymraeg, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Radio Cymru, S4C un ac S4C dau ac S4C digidol, Menter a Busnes, Cymraeg i Oedolion a hyd yn oed Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ond ydyn ni'n gwneud yn dda mewn gwirionedd?

SIARAD YR IAITH

Mae niferoedd siaradwyr Cymraeg yn cynyddu mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, gan gynnwys Rhondda Cynon Taf, diolch byth. Mae mwy a mwy o wasanaethau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac y mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae mwy o bobl yn cael gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu o leiaf yn cael defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn y gwaith ac yn cael cefnogaeth i wneud hynny.

DEFNYDDIO'R IAITH

Eto i gyd mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn dewis siarad Saesneg, mae llawer yn dewis gwrando ar gerddoriaeth Saesneg, mae llawer yn dewis edrych ar raglenni Saesneg ar y teledu, faint ohonoch sydd yn ysgrifennu sieciau yn Saesneg o hyd ac o hyd? Faint ohonom sydd yn dechrau pob sgwrs gyhoeddus yn y Saesneg heb ystyried gofyn a ydyw'r bobl eraill yn siarad Cymraeg? Faint sydd yn meddwl ei fod yn anghwrtais i siarad Cymraeg os oes pobl di-Gymraeg o fewn clyw? Faint ohonom sydd yn prynu tŷ gyda morgais Saesneg, car gyda benthyciad Saesneg, ffôn symudol gyda biliau Saesneg a gwasanaethau uniaith Saesneg, pensiynau uniaith Saesneg ac yn y blaen ac yn y blaen.

POPETH YN GYMRAEG?

Wrth ysgrifennu hwn gwn nad ydw i'n berffaith. Mae pecynnau cyflog y Fenter yn Saesneg achos ein bod wedi methu cael rhai Cymraeg, ac mi ydw i'n teimlo yn euog ofnadwy am hynny, ond syndod i mi ydy'r ffaith nad oes neb wedi cwyno am hyn o gwbl! Pe bai rhywun yn gwybod os oes rhai ar gael rhywle, ac rydym wedi edrych, plîs dywedwch ac fe wnawn eu prynu. Peth bach iawn byddai hyn.

GWNEUD Y PETHAU BYCHAIN

Peth bach iawn byddai i gwpl o bobl ddechrau ysgrifennu eu sieciau yn Gymraeg, peth bach iawn byddai i griw o bobl gymdeithasu yn gyhoeddus yn y Gymraeg, peth bach byddai tanysgrifiad i Golwg neu'r Cymro, peth bach ydy dilyn rhaglenni Cymraeg S4C a Radio Cymru, siarad Cymraeg â'r dysgwyr drws nesaf, gosod enw Cymraeg ar dŷ, ysgrifennu erthygl i bapur bro, gofyn am wasanaeth Cymraeg ar y ffôn neu wyneb yn wyneb - dych chi'n ffeindio siaradwyr Cymraeg yn y llefydd rhyfeddaf - peth bach ydy chwyldro ac fe ddaw un dydd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Weithgar i bawb.

Steffan Webb
Swyddog Datblygu Menter Iaith

Y FENTER AR WAITH

A beth mae'r Fenter Iaith yn gwneud?

Wel hyrwyddo prosiectau gwirfoddol Cymraeg mewn cydweithrediad gyda Interlink, hyrwyddo prosiectau ieuenctid gyda'r Urdd a Chyngor Sir Rhondda Cynon Taf, ymdrechu i agor meithrinfa gyda Mudiad Ysgolion Meithrin.

Hyrwyddo gwaith dysgu Cymraeg i oedolion a chynnal boreau coffi Cymraeg bob dydd Gwener am 11am yn y Bwtsiars Llantrisant lle mae na sôn y bydd ambell i wleidydd yn ymuno â ni yn fuan, nosweithiau yn nhafarn Y Ricard Arms yn y Cymer.

Sefydlu 9 cynllun gofal ar ôl ysgol yn Evan James, Castellau, Abercynon ers sbel go hir, Heol y Celyn, Y Dolau a Garth Olwg ers mis, Tonyrefail ac Aberdar ers ychydig o ddyddiau a Phontsionorton i ddod yn y flwyddyn newydd.

Sefydlu 4 cynllun gofal adeg y gwyliau yn Llanhari, Rhydfelen, Y Cymer a Rhydywaun bob dydd o'r gwyliau ysgol ers faint ? Ie saith mlynedd yn Rhydfelen a miloedd a miloedd o ymweliadau gan filoedd a miloedd o blant.

Bydd Parti Ponty 2000 yn ei thrydedd flwyddyn o dan yr enw hwnnw ac wedi denu ymhell dros 15,000 o ymwelwyr gyda chydweithrediad Radio Cymru erbyn yr haf nesaf.

Mae gwaith cydlynu, Cwlwm Busnes y Cymoedd, Cwrs Cyfieithu ar y pryd sydd yn dechrau ar 28/02/00, grantiau i ddysgwyr, sesiynau adolygu a llawer iawn mwy ar y gweill o hyd.

Pethau bach ydyn nhw i gyd ond wedi dweud hynny peth bach ydy dewis siarad iaith a pheth bach ydy chwyldro.

Menter Iaith

CWRS CYFIEITHU AR Y PRYD

7-9PM BOB NOS LUN DECHRAU 28/02/00
PRIFYSGOL MORGANNWG
O DAN ARWEINIAD ELIN TUDUR
PRIS I'W GADARNHAU
MANYLION 01443 226386

Menter Iaith *Urdd Gobaith Cymru*
Celfyddydau Cyngor Rhondda Cynon Taf

DISGO'R MILENIWM

DJ TYRONE

Nos Fercher 8 Rhagfyr `99

Ysgol Gyfun Y Cymer

7pm-9pm

Tocynnau:£1.50 (£2 ar y noson)

Am docynnau cysylltwch â
Rhodri Francis
ar 01443 682862 neu 01443 226386

Rhodri Francis,
Cydlynydd Ieuenctid Menter Iaith a'r Urdd wrth ei waith

URDDAHOLICS

GIG
TA TA 99
DJ's
Y Bechgyn Taclus

Clwb y Great Western
Trehopcyn
7.30 Nos Fawrth 21
Rhagfyr 99
Pris £4
Urddaholics £3

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Annwyl Olygydd

Ydy Tafod Elái yn agor cwys newydd? Ydych chi o hyn ymlaen yn mynd i geisio rhoi ychydig mwy o "sensationalism" ar y dudalen flaen? Yn sicr, roedd y stori yn rhifyn Tachwedd am Ysgol Rhydfelen yn bradychu ei hegwyddorion ac yn "tanseilio gwasanaeth gyrfaoedd cyfrwng Cymraeg" yn ymgais at hynny. Erthygl gan y golygydd, heb unrhyw ymholiadau i wirio'r ffeithiau. Anghyfrifol ar y naw!

Dyma'r ffeithiau y tu ol i'r stori, a gobeithio y byddwch mor deg a'u cyhoeddu yn y rhifyn nesaf.

Roedd y gynhadledd yrfaoedd a drefnwyd y llynedd am y tro cyntaf yn ddatblygiad pwysig o ran cadw i fyny gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Ar y cyfan roedd yn llwyddiannus, ac er bod rhai gwendidau wedi eu nodi, cytunwyd ei bod yn werth trefnu un arall.

Fis Gorffennaf diwethaf cafodd Rhydfelen gynnig i fod yn rhan o gynllun peilot gan PAB (Partneriaeth Addysg Busnes) i roi profiadau gyrfaol o fath newydd i ddisgyblion Blwyddyn 10, profiadau a fyddai'n cynnwys ymweld â chanolfan hyfforddi ym Mhenybont, a hefyd ymweliadau â'r ysgol gan ddiwydiannwyr a phobl busnes lleol i gynnal gweithdai gyrfaoedd - a hynny, sylwer, trwy gyfrwng y Cymraeg. Cynnig arbennig o atyniadol.

Ni allai'r ysgol ganiatau i'r disgyblion hyn, yn eu blwyddyn gyntaf o'r cwrs TGAU, golli mwy a mwy o amser dysgu. Felly roedd rhaid dewis rhwng y cynnig newydd yma a'r gynhadledd fawr. Ym marn yr ysgol, doedd dim dwywaith p'un fyddai fwyaf o werth uniongyrchol i'r disgyblion. Dewiswyd y cynllun newydd, ac mae'r rhan gyntaf, yr ymweliadau â'r ysgol gan ddiwydiannwyr a phobl busnes lleol, wedi bod yn llwyddiant arbennig. O ran disgyblion Rhydfelen, fe wnaed y penderfyniad cywir, yn sicr.

Gwerth nodi hefyd bod PAB wedi darparu'r holl ddogfennaeth yn y Gymraeg. Yn sicr ni fyddai hynny wedi digwydd onibai bod Rhydfelen wedi cymryd rhan.

Oedd, yr oedd yn benderfyniad anodd, ac fe eglurwyd y rhesymau yn llawn yng nghyfarfod trefnwyr y gynhadledd.

Gall eich darllenwyr ffurfio eu barn eu hunain ynglyn â phenderfyniad yr ysgol - o wybod y ffeithiau. Ys dywed y Sais, fe alla i fyw'da hynny. Ond yr hyn sy'n cythruddo dyn yw'r casineb yn y frawddweg ola - y gwawd sur yn y geiriau "ein haddysgwyr", a'r ensyniad chwerthinllyd nad yw'r ysgol hon yn "gweld gwerth i'r iaith Gymraeg a sicrhau fod disgyblion yn gwerthfawrogi fod addysg Gymraeg yn creu cyfleon ymhob maes"! Wir, Mr Golygydd!

D. Bryan James
Pennaeth Ysgol Rhydfelen

CANU YN STADIWM Y MILFLWYDD

Ar ddydd Sadwrn y 6ed o Dachwedd aeth criw o ddisgyblion Rhydfelen i Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd ac ymuno â channoedd o bobl ifainc o bob rhan o Gymru i ganu yn seremoni cloi Cwpan Rygbi'r Byd. Urdd Gobaith Cymru oedd wedi tynnu'r bobl hyn at ei gilydd a bum yn ymarfer yn ddyfal ers dechrau'r tymor.

Fe ganodd Côr yr Urdd y darn BRI gan Karl Jenkins a Gwyneth Lewis ac fe ganon ni eitemau eraill gydag enwogion megis Bryn Terfel, Shirley Bassey, Charlotte Church a Michael Ball. Yn anffodus, fe dorrodd yr HTV berfformiad y cor o'i darllediad gan osod hysbysebion yn ei le. Diolch yn fawr HTV! (Fe welodd gweddill y byd y Cor yn canu). Er i ni gael cin siomi yn ofnadwy gan hyn fe fwynheuon ni'r achlysur yn fawr iawn.

Hoffwn ddiolch, ar ran y disgyblion i Mr Patric Stephens, Miss Menna Thomas a Mr Peter Davies am eu hyfforddiant, i Miss Menna Lewis am ddod i gefnogi ar y diwrnod ac i Mr Dyfrig Morgan a'r Urdd am roi'r cyfle i ni.

Betsan Pearce a Geraint Chinnock.

YSGOL GYMRAEG GARTH OLWG

Gweithgareddau Nadolig

Fe gynhelir sbectrwm eang o weithgareddau eto eleni i ddathlu'r Nadolig. Fe gynhelir y Cyngerdd / Sioe Nadolig eleni dros y ddwy noson - Rhagfyr 7 a 9 yng nghapel Salem. Enw'r cyflwyniad fydd "Pwy yw y Seren". Fe gynhelir partion, disco ac ymweliad gan Siôn Corn, yn ystod wythnos olaf y tymor.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Bu'r arddangosfa tân gwyllt yn llwyddianus iawn eto eleni, er gwaethaf y tywydd gwlyb yn ystod y dydd - codwyd dros £900 i gronfa'r ysgol.

Fe gynhelir y Ffair Nadolig ar bnawn Gwener - Rhagfyr 10 - 3.30 i 5.30 o'r gloch. Fe fydd Siôn Corn yn ymweld â'r Ffair Nadolig hefyd.

Sioe Planed Plant

Bu brwdfrydedd amlwg ymysg plant oedran meithrin a derbyn a Chyfnod Allweddol 1 - wrth drefnu ymweliad â Chanolfan y Miwni i weld Sioe Planed Plant ar ddiwedd Tachwedd.

Ymweliad Addysgol

Bu dau ymweliad gan blant Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 i Ganolfan Glyn Cornel yn ystod mis Tachwedd a bu'r ddau ymweliad yn gyfraniad sylweddol tuag at hwyluso gwaith Gwyddoniaeth y tymor.

Gala Nofio

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio a drefnwyd gan yr Urdd yn ystod mis Tachwedd.

Llongyfarchiadau hefyd i'r merched fu'n cystadlu yn y twrnament pêl-rwyd.

Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi 2000
Tafod Elái

MEITHRIN / DERBYN
Llun: Mam neu Ffrind Gorau

BLWYDDYN 1
a) Ysgrifennu am "Fy Nheulu"

b) Llun neu collage - "Cennin Pedr"

BLWYDDYN 2
a) Ysgrifennu am "Y Car Rhyfedd"

b) Llun: "Y Car Rhyfedd"

BLWYDDYN 3
a) Ysgrifennu am "Fy Stryd"

b) Celf unrhyw gyfrwng: "Fy Stryd" neu "Fy hoff Siop"

BLWYDDYN 4
a) Ysgrifennu am "Pan fydda i'n hen"

b) Celf unrhyw gyfrwng: "Chwarae"

BLWYDDYN 5
a) Ysgrifennu am "Ddoe" neu "Yfory"

b) Llun: "Fy hoff dymor"

BLWYDDYN 6
a) Ysgrifennu: "Dyna i chi ddathlu!!"

b) Llun: "Dathlu".

BLWYDDYN 6
Triban - "Dathlu".

YSGOL GYNRADD
Safle ar y Wê ar 28 Ionawr 2000

Amodau

1. Rhaid i gystadleuwyr gystadlu yn eu hadrannau oedran cywir.
2. Rhaid nodi enw, oed, blwyddyn a chyfeiriad cartref neu ysgol.
3. Rhaid i bob cynnyrch fod yn waith dilys y plentyn.
4. A3 yw'r maint mwyaf o bapur neu gerdyn a dderbynnir er mwyn hwyluso cludiant a pharchu gwaith y plant.
5. Ni dderbynnir unrhyw gynnyrch ar ôl y dyddiad cau sef:-

Dydd Gwener, 21 Ionawr 2000
Anfoner pob cynnyrch i:

Tafod Elái
4 Cambrian Avenue
Gilfach Goch
PORTH
(01443 672307)

Tafod Elái
Hendre
4 Pantbach
PENTYRCH
(01222 890040)

O.N.
Gofaler fod y gwaith celf wedi ei ludo yn hollol gadarn ac wedi ei lapio yn ofalus gan fod y gwaith yn cael ei anfon i sawl man.

Buasai'n hwyluso pe bai'r gwaith yn dod mewn bag/bocs wedi'u diddoli i flynyddoedd yn barod

* **Cofiwch roi**
ENW * OED * BLWYDDYN * ENW'R YSGOL

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

Sefydlu Ficer

Soniais yn y rhifyn diwetha o Tafod Elái fod yna Ficer newydd ar ddod i Eglwysi Dewi Sant a Sant Alban Tonyrefail,Sant Barnabas Gilfach Goch a Llandyfodwg Glyn Ogwr.

Gwr o Kenya yw Y Parchedig Stephen Frederick Ambani, ac mae wedi treulio dipyn o amser yn ardal Nantymoel yng Nghwm Ogwr cyn cael ei wahodd i ymgymryd â'r gwaith yn yr ardaloedd uchod. Mae ganddo ef a'i wraig bedwar o blant - tri o fechgyn ag un ferch.

Ar nos Fawrth y 9fed o Dachwedd daeth tyrfa luosog i Eglwys Dewi Sant i dystiolaethu ei sefydlu gan Esgob newydd Llandaf Dr Barry Morgan i fod yn gyflawn ofalwr yr Eglwysi ar Plwyfolion. Roedd yna lu o Bersonau wedi dod ir oedfa ac yn eu plith Y Parchedig Bill Thomas, Arch Ddeacon Llandaf a fu rai blynyddoedd yn ôl yn Ficer ar yr Eglwysi yma, hyfryd oedd ei weld yn ôl yn yr hen borfeydd. Llongyfarchiadau iddo ar ei ddyrchafiad i fyny'r ysgol.

Dymunwn yn dda i Stephen yn ei ofalaeth newydd. Rwy'n siwr y bydd yn hapus yma yn ein plith o bob enwad a chred. Bendith arno a'r teulu.

NEWYDDION O'R EGLWYS

Llongyfarchiadau mawr i wragedd yr Eglwys am yr ymdrech fawr o gasglu blychau esgidiau 96 ohonynt. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i bobl sydd yn llai ffodus na ni ac mewn argyfwng ledled y byd. Diolch iddynt am eu hymdrech.

Cydymdeimlad dwys â Mr Haydn Harrison ar golli ei wraig ar ôl cystudd hir. Mae'r teulu wedi bob ac yn dal yn weithgar iawn yn Eglwys Dewi Sant.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Marian Crossley Fferm Pantglas,. Mae yn gwella yn ara deg. Mae hithau yn weithgar iawn yn Eglwys Sant Alban Cwmlai. Gobeithio y daw tro ar fyd arni yn fuan. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd iddi. Pob bendith Marian.

CAPEL Y TON.

Prynhawn Sul y 7fed o Dachwedd aeth cynrychiolaeth o Gapel y Ton i'r Brifddinas i Gapel y Crwys ar gyfer Gymanfa Ganu. Dyma'r tro cyntaf i'r Henaduriaeth gynnal y Gymanfa ar y Sul. Y traddodiad oedd ei chynnal yng Nghapel Bethania Llwynypia ar noson waith. Hyfryd oedd gweld y Capel yn llawn a chanu da, a chael cwmni ysgol Gymraeg lleol gydag eitem.

Mae llawer o'n haelodau yn methu dod i'r oedfaon oherwydd afiechyd ac oed, rhai dros eu nawdegau.

Troes i fewn i weld Mrs Sal Evans yn ddiweddar. Roeddwn heb ei gweld ers llawer dydd a'i chael yn weddol dda ac ystyried ei hoedran. Bydd yn GANT oed ym mis Chwefror nesaf. Er nad yw yn aelod gyda ni yng Nghapel Y Ton, roedd yn ffyddlon i Glwb Yr Henoed a bu yn cerdded i fyny i'r Ton hyd yn ddiweddar. Mae ei golwg yn pallu ag mae arni ofn mynd ar y ffordd erbyn hyn.

MARWOLAETH

Ar nos Fercher y 3ydd o Dachwedd bu farw Mr Leonard Llewellyn Williams a oedd yn byw rhyw dri drws i lawr oddi wrthym ni yn Nhylchawen hyd at ryw dair blynedd yn ôl. Bu raid iddo symud i fflat yn Tydawel yn y Ton er mwyn cael gofal. Roedd wedi byw ar ei ben ei hyn ers iddo golli ei wraig Bessie yn y chwe degau, ond am fod ei ferch ag unig blentyn yn byw yn Hwlffordd yn Sir Benfro a hithau yn gweld fod y tŷ yn ormod o faich iddo gadawodd Tylchawen. Dipyn yn ddiweddarach trodd ei iechyd yn waeth a chymerwyd ef i'r ysbyty, ac ar ôl cyfnod yno daeth yn ôl i gartref Parc Newydd Tonysguboriau, ac yna daeth yn ôl i gartref Gelli Seren am fod angen gofal llawn amser arno. Dygwyd ef yn ôl i ysbyty Pentre'r Eglwys ar fore Mercher lle y bu farw yr un noswaith.

Roedd Len yn un o deulu o bump o fechgyn a dwy ferch. Symudodd y teulu i Donyrefail yn nyddiau cynnar y ganrif o Benygraig yn y Rhondda, i fod yn agos i waith glo Cwmlai newydd ei agor bryd hynny a threuliodd Len ei holl ddyddiau gwaith yn y pwll glo a'r rhan helaeth ar ben y pwll.

Roedd Len yn gymeriad hoffus iawn ac yn wastad yn barod i wneud cymwynas. Roedd allan ym mhob tywydd wedi sicrhau ei hun a chot dda a legins. Fe gasglodd gannoedd o bensiynau rhai yn llai ffodus nag ef ei hun o'r Swyddfa Bost leol.

Roedd yn aelod ffyddlon a gweithgar o glwb yr henoed y Ton, a phob prynhawn Dydd Mawrth byddai wrth y bwrdd yn gofalu am y raffle, a phan byddai yn benblwydd un o'r aelodau fe fyddai yn galw'r "HIP HIP" nes byddai'r lle yn atsain. Hefyd roedd yn aelod gweithgar o bwyllgor Ymchwil Cancer lleol ac wedi casglu symiau mawr o arian ymysg eraill tuag at yr achos a mynd o ddrws i ddrws.

Fel rwyf wedi crybwyll eisoes collodd ei briod Bessie yn y chwe degau. Maent wedi gadael un ferch yn unig blentyn Mair a'i chymar Dave sydd yn hannu o Geredigion ac yn gyn heddwas, ac iddynt hwythau unig blentyn Alison wyres i Len sydd yn byw ac yn gweithio yn Llundain. Cafwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Gorffwys Rosemount Tonyrefail ar y 9fed o Dachwedd a gwasanaethwyd yn rymus iawn gan Y Parchedig Marion Ashton o Dreorci. Rhoddwyd i orffwys ym Mynwent y Tran Tonyrefail.

Diolch i Mair a'i theulu am eu gofal caredig am ei thad. Mae wedi teithio i fyny'r draffordd o Hwlffordd o leiaf unwaith yr wythnos i'w weld ar bob tywydd am sawl blwyddyn.

Coffa da am Len.

NOSON GWOBRWYO'R DYSGWYR

Nos Sadwrn, 2[il] Hydref daeth 140 o fyfyrwyr Cymraeg i Oedolion Morgannwg at ei gilydd yng Ngwesty Parc Treftadaeth y Rhondda i dderbyn eu credydau Rhwydwaith y Coleg Agored. Cyflwynwyd y tystysgrifau gan y Cynghorydd Cennard Davies (Cadeirydd Consortiwm Cymraeg i Oedolion Morgannwg), Einir Wyn Thomas, Swyddog Cymraeg i Oedolion, Bwrdd yr Iaith, a June Price, Swyddog Addysg Gymunedol Rhondda Cynon Taf. Cafwyd pryd o fwyd hyfryd ac adloniant Disgo Myrddin - roedd hi'n noson i'w chofio i'r dysgwyr a fu'n gweithio mor galed ac i'w teuluoedd cefnogol. Roeddent i gyd yn talu teyrnged i'w tiwtoriaid ymroddedig.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Ann Rees

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn â John James, Heol y Ffynnon ar golli ei chwaer oedd yn byw ym Mhontardawe. Gobeithio ei fod yn well ar ôl ei driniaeth yn yr ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU
Dymuniadau gorau i Gwion Rees, Penywaun a Dawn Watkins o Ferthyr ar eu dyweddiad.

CAPEL Y TABERNACL
5 Rhagfyr Eirian Rees (Oedfa Gymun)
12 Rhagfyr Gwasanaeth yng ngofal plant yr Ysgol Sul
19 Rhagfyr Gwasanaeth yng ngofal Teulu Twm
26 Rhagfyr Eirian Rees
2 Ionawr Eirian Rees (Oedfa Gymun)

NOSWYL Y NADOLIG
Cynhelir oedfa am 11.00 o'r gloch y nos ar 24 Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb.

TEULU TWM
Bu'r Twmiaid yn Neuadd Dewi Sant am noson yng nghwmni Martin Joseph.

Ar y 4ydd o Ragfyr byddant yn mynd ar drip dirgel ac ar y 10fed o Ragfyr am benwythnos i Dresaith. Mae'n siwr bydd newyddion cyffrous ganddynt erbyn y rhifyn nesaf.

YR YSGOL SUL
Bydd parti nofio i blant yr Ysgol Sul a'u ffrindiau ac oedolion ar 4ydd o Ragfyr yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant o 12.00 tan 2.00. Cawn gyfle i gael cinio a gwylio fideo gyda'n gilydd.

siop y Bont
MARCHNAD PONTYPRIDD
Dewch i weld Maldwyn ac Ann am ddewis o Gasetiau,Cryno-Ddisgiau a Fideos Cymreig.

Mae llyfrau ar gael i blant ac oedolion ac os nad ydynt gennym ni, gallwn eu harchebu.
Ar werth hefyd mae llestri ffein a phridd,gwaith glo a gwaith llechi yn ogystal â nifer o bethau eraill.

Dewch i'n gweld ni unrhyw bryd o Ddydd Mawrth i Ddydd Sadwrn.
Ffôn: 07970 693339

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Heulwen Rees ac Alun, a'r plant Ffion a Rhodri o Manor Chase. Bu farw tad Heulwen yn sydyn iawn yn ddiweddar. Hoffem gydymdeimlo â'i weddw sy'n byw yn ymyl Y Fenni a Rhodri, brawd Heulwen, a'i deulu fu'n byw yn Llantrisant nes yn ddiweddar ond sy'n byw yn sir Gaerfyrddin bellach.

YMDDIHEURIAD

Hoffwn ymddiheuro am wneud camgymeriad yn rhifyn Tachwedd o'r Tafod! Wrth sôn am Lywodraethwr newydd sydd gan Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ers mis Hydref, mi alwais Mr Griffiths yn Andrew - darganfûm (yn rhy hwyr) mai Gareth yw ei enw! Ymddiheuriadau mawr!

Nid Gareth Griffiths yw'r unig Lywodraethwr ychwanegol a etholwyd i'r Bwrdd; mae Mrs Alison Evans, Ysgrifenyddes yr ysgol yn cynrychioli staff yr ysgol (nad ydynt yn athrawon), ac mae Mrs J Griffiths wedi ymuno â ni hefyd yn cynrychioli Cymuned Pontyclun. Hefyd, hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i Wyn Thomas am ei waith fel Cadeirydd dros y blynyddoedd diwethaf.

CROESO

Daeth dau o bobl i fyw i Lantrisant yn ddiweddar - croesawn Elain Haf Davies sydd yn byw yn yr hen dref, a Iestyn Morris, sydd wedi cael swydd yn dysgu yn Ysgol y Cymer ac sydd yn byw yn nhŷ ei chwaer tra ei bod hi i ffwrdd am gyfnod.

Y TŶ MODEL

Gyda'r Nadolig yn agosáu, mae'r Tŷ Model yn trefnu gweithdai ar ddyddiau Sadwrn ym mis Rhagfyr. Ar 4ydd Rhagfyr mae modd i blant rhwng 7 a 12 oed fynd yno i wneud cardiau Nadolig ac ar 18fed Rhagfyr gallant wneud losin siocled i roi yn anrhegion Nadolig. Pris y gweithdai yw £3.50 y pen ac am fanylion pellach ffoniwch 237758.

CLWB GWAWR

Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu Clwb Gwawr yn Llantrisant. Clwb ydyw "i ferched a mamau ifanc" sy'n Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr. Bu cyfarfodydd eisoes er mwyn gwneud y trefniadau rhagarweiniol ac mae'n debygol y bydd y Clwb yn cwrdd yn fisol ar bedwaredd nos Fawrth y mis. Mae angen o leiaf hanner dwsin o bobl i ddod ynghyd yn rheolaidd er mwyn sicrhau dyfodol y Clwb, felly os oes gennych ddiddordeb ffoniwch Gwenda Collier ar 01443 226086.

DYWEDDIO

Llongyfarchiadau i Mari Robert, Maes yr Haul, a James Coxon, sy'n astudio Deintyddiaeth yng Nghaerdydd ar eu dyweddiad.

ENNILL GWYLIAU

Efallai i rai ohonoch weld un teulu o Lantrisant ar y teledu ar S4C ychydig wythnosau yn ôl yn cystadlu ar y rhaglen "Cerdyn Post". Bu Eurof a Diane James yn ddigon ffodus i gael eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen ac yn fwy ffodus fyth, nhw oedd yn fuddugol ar y noson ac maent wedi ennill gwyliau i'r teulu yn Majorca. Da iawn chi!

FFRINDIAU'R URDD

YR ANRHEG NADOLIG DELFRYDOL

Llety penwythnos am ddim !!

*mewn dewis o westai moethus**

Wrth ymuno yng nghynllun Ffrindiau'r Urdd cewch lu o fanteision amrywiol megis:

- £10 i ffwrdd o dâl gwyliau teulu yng ngwersylloedd yr Urdd
- Taleb 2 am bris 1 ar dâl mynediad i faes yr Eisteddfod
- Taleb llety penwythnos **am ddim** mewn dewis o westai moethus o amgylch Prydain*(*mae'r daleb yma werth o leiaf £150, yr unig beth fydd angen talu amdano fydd prydau bwyd.)

ynghyd â llu o freintiau eraill, a gwybodaeth gyson ynglŷn â'r Urdd. Os penderfynwch ymaelodi â'r cynllun yma, gallwch anfon y bonyn isod ynghyd â siec o £20, ond byddai'n fanteisiol i'r Urdd pe baech yn cyfamodi â'r Urdd, a thalu drwy archeb banc yn flynyddol – ceir manylion oddi wrth: Ffrindiau'r Urdd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EN neu ar y we: www.urdd.org

✂----------

Rwyf am ymaelodi gyda Ffrindiau'r Urdd ☐

Dymunaf dderbyn rhagor o wybodaeth am Ffrindiau'r Urdd ☐

Enw:.....

Cyfeiriad: .....

.....Côd post .....

Rwy'n amgáu siec o £20 ☐ Yn daladwy i: Urdd Gobaith Cymru

S4C CROESO 'NOL ROGER, AC ARWEL

Ydy, mae Roger yn ei ôl. Yr wythnos hon, fe welwn fod hogyn drwg Rownd a Rownd wedi cael ei ryddhau o'r carchar ac yn ôl yn crwydro ei hen gynefin. Ydy'r dihiryn wedi newid? A yw'r cyfnod o gosb wedi gweithio? A newidia y llewpart ei frychni? Cawn weld.

Mae dychweliad Roger i Rownd a Rownd wedi bod yn bleser pur i'r actor ifanc sy'n chwarae rhan Roger, sef ARWEL ROBERTS, o bentref Talysarn yng Ngwynedd yn wreiddiol, ond sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd.

"Roedd yn grêt bod yn ôl. Un o'r profiadau gorau o ran gwaith teledu dwi wedi ei gael yw gweithio ar Rownd a Rownd. Mae pawb yno fel un teulu, ac mae pawb yn agos at ei gilydd. Ydy mae'n neis bod yn ôl, ac mae'n neis i gael cyfle i fod adra' am gyfnod."

Ers iddo orffen ffilmio am y tro gyda Rownd a Rownd ym mis Ionawr 1998, mae Arwel wedi mwynhau cyfnod aruthrol o brysur. Ychydig ddyddiau ar ôl gorffen ffilmio roedd ar ei ffordd i'r brifddinas, i ddechrau gweithio i'r cwmni teledu annibynnol, Avanti, ac i ddechrau perfformio gyda'r grwp Mega.

"Fe wnaeth popeth ddigwydd mor gyflym. Roedd gynnon ni bedair wythnos i ymarfer cyn ein perfformiad cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenybont. Mi wnaethon ni ddysgu a recordio naw cân ac fe gawson ni dri diwrnod o ymarfer caled efo'r coreograffydd Kirsty Davide. Mae hi'n brofiadol iawn ac wedi gweithio efo sêr fel Kim Wilde, Eternal Enrique Inglesias, Michelle Gayle a 911. Mi wnaethon ni weithio'n galed iawn. Ar ddechrau'r mis mi roeddwn i'n pwyso bron i 14 stôn. Ar ddiwedd y bedair wythnos ro'n i'n pwyso 12 stôn! Felly, os ydach chi isho colli pwysa, ymunwch â Mega!"

I'r rhai ohonoch sydd yn anwybodus ynglyn a'r materion hyn, y pedwar aelod o Mega yw Arwel (Ard), Trystan (Taz), Rhydian (Rib), a Marc (Icl).

Mae Arwel yn mwynhau ei gyfnod yn ôl yn Rownd a Rownd ond a all Roger ddweud yr un peth? Mae'n edrych fel petai wedi troi dalen newydd ac yn ymddwyn yn neis iawn tuag at bawb, ond ydi o'n ddiffuant? "Mae'n berson cymhleth, yn berson anodd i'w adnabod. Mae ei deulu wedi bod yn gefn mawr iddo fo tra roedd o yn y carchar, ond does ganddo fo ddim llawer o ffrindia."

Yn wahanol iawn i Arwel sydd efo ffrindiau ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn, diolch i'w berfformiadau cofiadwy gyda Mega!

Rownd a Rownd. S4C
5pm Dydd Llun a Dydd Mercher

NADOLIG Y PLANT

Lliwiwch Siôn Corn a'r Anrhegion

dau ddeg dau - porffor
dau ddeg tri - brown
dau ddeg pedwar - melyn
dau ddeg pump - oren
dau ddeg saith - gwyrdd
dau ddeg wyth - pinc
dau ddeg naw - glas
tri deg - coch

CROESAIR NADOLIG

AR DRAWS
1. Nadolig __.
2. Mair _ Joseff.
3. Rwy'n hoffi cael ___ yn fy hosan.
9. _ Sindy.
10. _ i feic os gwelwch yn dda?
12. Mae'r anrhegion yn yr __.
13. Mae'r doethion a'r bugeiliaid _ y preseb.

I LAWR
2. Rwy'n sefyll yn uchel ar y goeden.
4. Rydyn ni'n canu ___ amser Nadolig.
6. Mae Siôn Corn _ ar y tô.
7. Mam Iesu.
8. Mae Siôn Corn yn dod _ Wlad yr Iâ.
11. Mae Siôn Corn yn gwisgo _ goch.